**Statement on the Legislative Consent Motion for the Terminally Ill Adults (End of Life) Bill**

*Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru / Churches Together in Wales*

12th February 2026

Cytûn, Churches Together in Wales, issues this statement in advance of the Senedd debate and vote on the Legislative Consent Motion (LCM) relating to the Terminally Ill Adults (End of Life) Bill, scheduled for 24th February 2026.

## 1. Denominational Perspectives on Assisted Dying

Cytûn represents a broad and diverse membership of Christian churches and organisations across Wales. On the matter of assisted dying, and the legislation about to be debated by the Senedd, member denominations express a range of responses. Some denominations have a principled stance against it, some express significant concern about the legislation and how decisions have been reached, some desire to inform their members of the issues so that they can make an informed decision according to their own conscience. We acknowledge that people of sincere Christian faith are acting with the best of intentions in putting forward their views.

Several member denominations have formally expressed opposition to the principle of assisted suicide. In November 2024, religious leaders including representatives of the Catholic Church, the Church in Wales, the Salvation Army, the Methodist Church, and the Assemblies of God—all members of Cytûn—published a joint letter expressing deep concern about the proposed legislation. This letter highlighted concerns about the potential for unfair pressure on vulnerable individuals, the risk of eligibility expanding over time, and the inadequacy of current end-of-life care resources.

The Bishops of the Church in Wales have stated that their primary concern about the Bill is that it risks devaluing human life and have called on the government to invest instead in palliative care so that no limits are put on the compassion which we show as individuals and as a society. The Catholic Bishops in Wales have issued statements emphasising that true compassion does not mean ending a life. It means accompanying those who suffer, easing their pain, supporting families, and ensuring that no one feels abandoned, burdensome, or without worth.

The Baptist, United Reformed Church and the Methodists, via the Joint Public Issues Team (JPIT) have distributed materials to help its members engage with the key questions and with their elected representatives. Similar actions have been taken by other Christian organisations represented within the Welsh ecumenical community.

It is important to note that some denominations, as a matter of principle and ecclesiological practice, do not adopt formal positions on matters of public policy such as this, instead allowing individual members to form their own opinions in accordance with their conscience. This position of neutrality or silence should not be interpreted as endorsement of, or support for, assisted dying. The absence of an official denominational statement opposing the Bill does not indicate approval of its provisions or of a consent motion required of the Senedd. Many individual members of these churches hold deeply considered views opposing assisted suicide, informed by their faith and understanding of the sanctity of human life.

## 2. Concerns Regarding the Bill and the Legislative Consent Motion

Independent of the theological and ethical positions of individual member churches, Cytûn has significant concerns regarding the specific provisions of the Terminally Ill Adults (End of Life) Bill and the Legislative Consent Motion now before the Senedd.

A wide range of organisations and stakeholders have raised substantial concerns about this legislation that remain unaddressed:

**Healthcare professionals:** More than 250 doctors and healthcare professionals in Wales have signed an open letter urging members of the Senedd to reject the LCM, describing the Bill as flawed and raising concerns about inadequate safeguards against coercion, the impossibility of accurate prognostication, and the risks to vulnerable patients. The Royal College of Psychiatrists Wales has stated that it cannot support the Bill in its current form.

**Palliative care concerns:** The Senedd Health and Social Care Committee expressed concern about the potential longer-term impact of the Bill on the provision of palliative and end-of-life care in Wales. Hospice UK and other organisations have highlighted that the current state of palliative care provision is inadequate, with hospices in Wales receiving less than a third of their funding from Government. The Committee concluded that any implementation of assisted dying services must not impact negatively on funding for palliative and end-of-life care.

> *Cytûn strongly believes that the Welsh Government must prioritise urgent and sustained investment in palliative care services across Wales. Rather than diverting resources and attention to implementing assisted dying legislation, there is a compelling case for significantly expanding access to high-quality palliative and end-of-life care, ensuring that all people in Wales have the support, pain management, and dignity they deserve in their final days. Such investment would provide genuine choice and compassionate care for terminally ill individuals and their families, addressing the root concerns that often underlie requests for assisted dying. The development and funding of comprehensive palliative care infrastructure must be recognised as the compassionate alternative that truly serves the needs of vulnerable people facing life-limiting illnesses.*

**Constitutional concerns:** The Senedd Legislation, Justice and Constitution Committee raised serious concerns about the scope of the LCM. The Committee noted that the Welsh Government had taken a narrow approach to determining which provisions require Senedd consent and concluded that additional clauses beyond those identified by the Welsh Government should require the Senedd's consent. The Committee also expressed concern that the Bill creates concurrent powers without appropriate consent mechanisms and that key aspects of implementation relating to healthcare delivery in Wales have not been properly subjected to Senedd scrutiny.

**Welsh language provision:** Both of the relevant Senedd committees raised questions about the adequacy of Welsh language provision. The Royal College of Psychiatrists Wales noted the significant shortage of Welsh-speaking psychiatrists and concerns about whether the right of individuals to discuss such profound decisions through the medium of Welsh can be upheld. The Health and Social Care Committee called for clarification on how the Welsh Government plans to ensure sufficient Welsh-speaking staff to deliver these services.

**Workforce implications:** Stakeholders including BASW Cymru have raised concerns about workforce capacity, noting that health and social care services are already operating at capacity levels. The level of conscientious objection among healthcare professionals is unknown, which could significantly impact service delivery.

Despite these substantial concerns being raised through formal committee processes and by expert bodies, the Bill as currently drafted does not adequately address them. The Senedd Health and Social Care Committee acknowledged that so much is still unknown about its final, settled form as well as its practical implementation. The Committee's expectation that any future implementation should involve wide-ranging public consultation and a full and thorough examination by Senedd committees underscores the inadequacy of current scrutiny.

It is also significant that in October 2024, the Senedd debated a motion on assisted dying and voted against it, with opposition from members across all major parties including Labour, Liberal Democrats, Plaid Cymru, and the Conservatives. Several Welsh Government Ministers, including the First Minister, voted against the motion. This demonstrated that there is no settled will within the Senedd or among the Welsh public for this significant change to be imposed on Wales. Amongst those members of the Senedd who may be seen as proponents of the current bill under scrutiny within the Houses of Parliament, their Early Day Motion (NDM8656) acknowledged that *"if assisted dying were to be legalised, and given its responsibility for health and social care, the Welsh Government would require an in-depth understanding of any proposals."* It is important to conclude therefore that both sides of this difficult argument cannot point to adequate scrutiny of the implications of the Bill in Wales.

## Conclusion

Cytûn recognises that this is an issue of profound moral significance on which people of good faith and genuine concern for our shared humanity hold different views. We respect the sincerity of those who support assisted dying legislation and acknowledge the compassion that motivates their position. We also recognise, as set out in the Senedd debate of November 2024 by proponents of the facility, that any provision would need to be 'well-designed' and address a wide range legal, constitution and indeed practical aspects.

> **Therefore, on the specific matter of the Legislative Consent Motion before the Senedd on 27th February 2026, and the passage of the current Bill as being considered by the UK Parliament, Cytûn believes that legislative consent should not be granted.**

This conclusion is reached on the following grounds:

**1.** Significant Christian denominations in Wales, alongside other faith groups, have expressed principled opposition to assisted dying, reflecting a concern for the sanctity of human life and the protection of vulnerable individuals that is shared across many faith traditions. In addition, that the lack of a statement against the current bill or the general moral, ethical and theological principles of assisted suicide, should not be considered as support for the proposed legislation.

**2.** The specific provisions of the Bill do not adequately address the substantial concerns raised by healthcare professionals, patient safety advocates, palliative care experts, and other stakeholders.

**3.** The concerns raised by both Senedd scrutiny committees regarding constitutional matters, Welsh language provision, workforce implications, and the impact on palliative care have not been satisfactorily resolved.

**4.** The prerogatives of the Senedd and Welsh Government for the provision of healthcare in Wales must be respected. The narrow approach to determining which provisions require consent, and the creation of concurrent powers without appropriate safeguards, represents an undermining of devolved competence.

**5.** Mindful that this current house is set to come to an end and that the Senedd previously expressed its opposition to the principle of assisted dying, granting legislative consent at this stage would not respect the clearly expressed view of current elected Members.

**6.** The urgent need to improve, fund and support the development of palliative care in Wales has not been adequately addressed. Investment in comprehensive palliative and end-of-life care services would provide a compassionate alternative to assisted dying, ensuring that all people in Wales receive the dignity, pain management, and support they deserve during their final days. Prioritising palliative care funding and infrastructure development represents a positive commitment to supporting vulnerable individuals and their families, rather than facilitating the ending of life.

We therefore call upon Members of the Senedd to vote against the Legislative Consent Motion, thereby ensuring that the concerns of the Welsh people, the recommendations of Senedd committees, and the prerogatives of devolved healthcare policy are properly respected.

***Cytûn: Churches Together in Wales***
*Eglwysi Ynghyd yng Nghymru*

For immediate release: 12th February 2026

# Churches call on Senedd to reject Legislative Consent Motion on the Terminally Ill Adults (End of Life) Bill

Cytûn, Churches Together in Wales, has called on Members of the Senedd to vote against the Legislative Consent Motion (LCM) relating to the Terminally Ill Adults (End of Life) Bill when it is debated (currently scheduled for the 24th February 2026). In a statement issued today, the national ecumenical body representing Christian churches across Wales concluded that the LCM should not be granted, citing unresolved concerns about the Bill's provisions and respect for devolved healthcare competences.

The statement acknowledges that views on assisted dying vary across Cytûn's member denominations, but notes that several significant churches—including the Catholic Church, the Church in Wales, the Methodist Church, the Salvation Army, and the Presbyterian Church of Wales—have expressed opposition to the principle of assisted suicide. Cytûn emphasises that denominations which have not issued formal positions, often as a matter of ecclesiological principle, should not be interpreted as supporting the legislation. The absence of an official statement does not indicate approval.

Cytûn's statement highlights that substantial concerns raised by healthcare professionals, palliative care experts, and both Senedd scrutiny committees remain unaddressed. More than 250 Welsh doctors and health professionals have described the Bill as "deeply flawed", while the Senedd's Legislation, Justice and Constitution Committee raised serious questions about the constitutional implications of the Welsh Government's "narrow approach" to determining which provisions require Senedd consent. Concerns about Welsh language provision, workforce capacity, and the impact on palliative care funding have also not been satisfactorily resolved. Cytûn emphasises the urgent need for the Welsh Government to prioritise investment in comprehensive palliative care services rather than diverting resources to implementing assisted dying legislation. Significantly expanding access to high-quality palliative and end-of-life care would provide genuine compassionate support for terminally ill individuals and their families across Wales.

Cytûn further notes that in October 2024, the Senedd voted against a motion supporting assisted dying, with opposition from members across all major parties including several Welsh Government Ministers. The ecumenical body argues that granting legislative consent would not respect this clearly expressed view, nor the prerogatives of the Senedd and Welsh Government for the provision of healthcare in Wales. Cytûn calls on Members to vote against the LCM to ensure that the recommendations of Senedd committees and the concerns of the Welsh people are properly respected.

**– ENDS –**

## Notes to Editors

**1.** Cytûn's full statement on the Legislative Consent Motion is available at: https://www.cytun.co.uk/en/statement-on-the-legislative-consent-motion-for-the-terminally-ill-adults-end-of-life-bill/

**2.** Cytûn (Churches Together in Wales / Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) is the national ecumenical body representing Christian churches in Wales. Its members include the Church in Wales, the Catholic Church, the Presbyterian Church of Wales, the Union of Welsh Independents, the Methodist Church, the Baptist Union of Wales, the Salvation Army, the United Reformed Church, and other denominations and Christian organisations.

**3.** The Senedd debate on the Legislative Consent Motion for the Terminally Ill Adults (End of Life) Bill is scheduled for Tuesday 27th February 2026. The LCM relates to provisions in the Westminster Bill that concern devolved matters, particularly the delivery of assisted dying services through NHS Wales.

**4.** In October 2024, the Senedd debated a motion on assisted dying and voted against it by 26 votes to 19, with 9 abstentions. Opposition came from members of Labour, Plaid Cymru, the Conservatives, and the Liberal Democrats.

**5.** The Senedd Health and Social Care Committee and the Legislation, Justice and Constitution Committee both published reports on the LCM in October 2025. Both committees raised concerns about aspects of the Bill and its implementation in Wales.

**6.** In November 2024, faith leaders from Christian, Jewish, Muslim, Hindu, and Sikh communities in Wales issued a joint statement opposing the Bill, stating: *“Compassion is at the heart of all the great world religions. Life is sacred.”*

---

**For media enquiries, please contact:**

Cytûn, Hastings House, Fitzalan Court, Cardiff CF24 0BL

Email: post@cytun.co.uk   Website: www.cytun.co.uk   Call: 0330 016 9860

12fed Chwefror 2026

Mae Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn cyhoeddi'r datganiad hwn cyn y ddadl a'r bleidlais yn y Senedd ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (CCD) yn ymwneud â'r Bil Oedolion â Salwch Terfynol (Diwedd Oes), a drefnwyd ar gyfer 24ain Chwefror 2026.

## 1. Safbwyntiau Enwadol ar Farwolaeth â Chymorth

Mae Cytûn yn cynrychioli aelodaeth eang ac amrywiol o eglwysi a sefydliadau Cristnogol ledled Cymru. Ynghylch marwolaeth â chymorth, a'r ddeddfwriaeth sydd ar fin cael ei thrafod gan y Senedd, mae enwadau sy'n aelodau yn mynegi ystod o ymatebion. Mae gan rai enwadau safbwynt egwyddorol yn ei herbyn; mae eraill yn mynegi pryder sylweddol ynghylch y ddeddfwriaeth a'r modd y mae penderfyniadau wedi'u gwneud; ac mae rhai yn dymuno hysbysu eu haelodau am y materion fel y gallant wneud penderfyniad gwybodus yn unol â'u cydwybod eu hunain. Rydym yn cydnabod bod pobl o ffydd Gristnogol ddiffuant yn gweithredu gyda'r bwriadau gorau wrth gyflwyno eu barn.

Mae nifer o enwadau aelodol wedi mynegi gwrthwynebiad ffurfiol i egwyddor hunanladdiad â chymorth. Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd arweinwyr crefyddol, gan gynnwys cynrychiolwyr yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru, Byddin yr Iachawdwriaeth, yr Eglwys Fethodistaidd, a Chynulleidfaoedd Duw—pob un yn aelodau o Gytûn—lythyr ar y cyd yn mynegi pryder dwfn am y ddeddfwriaeth arfaethedig. Tynnodd y llythyr hwn sylw at bryderon ynghylch y posibilrwydd o roi pwysau annheg ar unigolion bregus, y risg y byddai cymhwysedd yn ehangu dros amser, ac annigonolrwydd adnoddau gofal diwedd oes presennol.

Mae Esgobion yr Eglwys yng Nghymru wedi datgan mai eu prif bryder am y Bil yw ei fod yn peryglu dibrisio bywyd dynol ac wedi galw ar y llywodraeth i fuddsoddi yn hytrach mewn gofal lliniarol fel na roddir unrhyw derfynau ar y tosturi a ddangosir gennym fel unigolion ac fel cymdeithas. Mae'r Esgobion Catholig yng Nghymru wedi cyhoeddi datganiadau'n pwysleisio nad yw gwir dosturi yn golygu dod â bywyd i ben. Mae'n golygu bod gyda'r rhai sy'n dioddef, lleddfu eu poen, cefnogi teuluoedd, a sicrhau nad oes neb yn teimlo'n amddifad, yn faich, nac yn ddiwerth.

Mae'r Bedyddwyr, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a'r Methodistiaid, drwy'r Tîm Materion Cyhoeddus ar y Cyd (JPIT), wedi dosbarthu deunyddiau i helpu eu haelodau i ymgysylltu â'r cwestiynau allweddol a chyda'u cynrychiolwyr etholedig. Mae camau tebyg wedi eu cymryd gan sefydliadau Cristnogol eraill a gynrychiolir o fewn y gymuned eciwmenaidd yng Nghymru.

Mae'n bwysig nodi nad yw rhai enwadau, fel mater o egwyddor ac arfer eglwysyddol, yn mabwysiadu safbwyntiau ffurfiol ar faterion polisi cyhoeddus fel hyn, gan ganiatáu yn hytrach i aelodau unigol ffurfio eu barn eu hunain yn unol â'u cydwybod. Ni ddylid dehongli'r safbwynt hwn o niwtraliaeth neu dawelwch fel cymeradwyaeth o, na chefnogaeth i, farwolaeth â chymorth. Nid yw absenoldeb datganiad enwadol swyddogol yn gwrthwynebu'r Bil yn dangos cymeradwyaeth o'i ddarpariaethau nac o gynnig cydsyniad sy'n ofynnol gan y Senedd. Mae llawer o aelodau unigol yr eglwysi hyn yn dal safbwyntiau dwys a ystyriol sy'n gwrthwynebu hunanladdiad â chymorth, wedi eu llywio gan eu ffydd a'u dealltwriaeth o sancteiddrwydd bywyd dynol.

## 2. Pryderon ynghylch y Bil a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

Yn annibynnol ar safbwyntiau diwinyddol a moesegol eglwysi aelodol unigol, mae gan Gytûn bryderon sylweddol ynghylch darpariaethau penodol y Bil Oedolion â Salwch Terfynol (Diwedd Oes) a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

Mae ystod eang o sefydliadau a rhanddeiliaid wedi codi pryderon sylweddol am y ddeddfwriaeth hon nad ydynt wedi eu datrys:

**Gweithwyr iechyd proffesiynol:** Mae mwy na 250 o feddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru wedi llofnodi llythyr agored yn annog Aelodau o'r Senedd i wrthod y CCD, gan ddisgrifio'r Bil fel un diffygiol a chodi pryderon am ddiogelwch annigonol yn erbyn gorfodaeth, yr amhosiblrwydd o ragfynegi'n gywir, a'r risgiau i gleifion bregus. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru wedi datgan na all gefnogi'r Bil yn ei ffurf bresennol.

**Pryderon gofal lliniarol:** Mynegodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd bryder am effaith bosibl y Bil yn y tymor hwy ar ddarpariaeth gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru. Mae Hospice UK a sefydliadau eraill wedi tynnu sylw at y ffaith bod cyflwr presennol darpariaeth gofal lliniarol yn annigonol, gyda hosbisau yng Nghymru yn derbyn llai na thraean o'u cyllid gan y Llywodraeth. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad na ddylai unrhyw weithrediad o wasanaethau marwolaeth â chymorth effeithio'n negyddol ar gyllid ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes.

> *Mae Cytûn yn credu'n gryf bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiad brys a pharhaus mewn gwasanaethau gofal lliniarol ledled Cymru. Yn hytrach na dargyfeirio adnoddau a sylw i weithredu deddfwriaeth marwolaeth â chymorth, mae achos cryf dros ehangu mynediad yn sylweddol at ofal lliniarol a gofal diwedd oes o ansawdd uchel, gan sicrhau bod gan bob person yng Nghymru y gefnogaeth, y rheolaeth ar boen, a'r urddas y maent yn eu haeddu yn eu dyddiau olaf. Byddai buddsoddiad o'r fath yn darparu dewis gwirioneddol a gofal tosturiol i unigolion â salwch terfynol a'u teuluoedd, gan fynd i'r afael â'r pryderon sylfaenol sy'n aml yn sail i geisiadau am farwolaeth â chymorth. Rhaid cydnabod datblygu a chyllido seilwaith gofal lliniarol cynhwysfawr fel yr dewis amgen tosturiol sy'n gwasanaethu anghenion pobl fregus sy'n wynebu afiechydon sy'n cyfyngu ar fywyd.*

**Pryderon cyfansoddiadol:** Cododd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd bryderon difrifol am gwmpas y CCD. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cul o benderfynu pa ddarpariaethau sydd angen cydsyniad y Senedd a daeth i'r casgliad y dylai cymalau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd. Mynegodd y Pwyllgor bryder hefyd fod y Bil yn creu pwerau cydredol heb fecanweithiau cydsyniad priodol a bod agweddau allweddol ar weithredu sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd yng Nghymru heb gael eu craffu'n briodol gan y Senedd.

**Darpariaeth y Gymraeg:** Cododd y ddau bwyllgor perthnasol yn y Senedd gwestiynau am ddigonolrwydd darpariaeth y Gymraeg. Nododd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru y prinder sylweddol o seiciatryddion Cymraeg eu hiaith a phryderon ynghylch a ellir cynnal hawl unigolion i drafod penderfyniadau mor ddwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Galwodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eglurhad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau digon o staff Cymraeg eu hiaith i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

**Goblygiadau'r gweithlu:** Mae rhanddeiliaid gan gynnwys BASW Cymru wedi codi pryderon am gapasiti'r gweithlu, gan nodi bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eisoes yn gweithredu ar lefelau capasiti llawn. Nid yw lefel y gwrthwynebiad cydwybodol ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol yn hysbys, a gallai hyn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau.

Er gwaethaf codi'r pryderon sylweddol hyn drwy brosesau pwyllgorau ffurfiol a chan gyrff arbenigol, nid yw'r Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â hwy'n ddigonol. Cydnabu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd fod cymaint yn dal yn anhysbys am ei ffurf derfynol, sefydlog yn ogystal â'i weithrediad ymarferol. Mae disgwyliad y Pwyllgor y dylai unrhyw weithrediad yn y dyfodol gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus eang ac archwiliad llawn a thrylwyr gan bwyllgorau'r Senedd yn tanlinellu annigonolrwydd y craffu presennol.

Mae'n arwyddocaol hefyd ym mis Hydref 2024 fod y Senedd wedi trafod cynnig ar farwolaeth â chymorth ac wedi pleidleisio yn ei erbyn, gyda gwrthwynebiad gan aelodau ar draws yr holl brif bleidiau gan gynnwys Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru, a'r Ceidwadwyr. Pleidleisiodd nifer o Weinidogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Prif Weinidog, yn erbyn y cynnig. Dangosodd hyn nad oes ewyllys sefydlog o fewn y Senedd nac ymhlith pobl Cymru i'r newid sylweddol hwn gael ei orfodi ar Gymru. Ymhlith yr Aelodau o'r Senedd y gellid eu hystyried yn gefnogwyr i'r bil presennol sy'n cael ei graffu yn Nhŷ San Steffan, cydnabu eu Cynnig Cynnar (NDM8656) "pe bai marwolaeth â chymorth yn cael ei gyfreithloni, ac o ystyried ei chyfrifoldeb dros iechyd a gofal cymdeithasol, y byddai angen i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth drylwyr o unrhyw gynigion." Mae'n bwysig dod i'r casgliad felly na all y naill ochr na'r llall o'r ddadl anodd hon gyfeirio at graffu digonol ar oblygiadau'r Bil yng Nghymru.

## Casgliad

Mae Cytûn yn cydnabod bod hwn yn fater o arwyddocâd moesol dwfn lle mae pobl o ffydd dda a phryder gwirioneddol am ein dynoliaeth gyffredin yn dal safbwyntiau gwahanol. Rydym yn parchu diffuantrwydd y rhai sy'n cefnogi deddfwriaeth marwolaeth â chymorth ac yn cydnabod y tosturi sy'n cymell eu safbwynt. Rydym hefyd yn cydnabod, fel y nodwyd yn nadl y Senedd ym mis Tachwedd 2024 gan gefnogwyr y ddarpariaeth, y byddai angen i unrhyw ddarpariaeth gael ei 'chynllunio'n dda' a mynd i'r afael ag ystod eang o agweddau cyfreithiol, cyfansoddiadol ac yn wir ymarferol.

> **Felly, ar fater penodol y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd ar 27 Chwefror 2026, a hynt y Bil presennol fel y'i hystyrir gan Senedd y DU, mae Cytûn yn credu na ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol.**

Deuir i'r casgliad hwn ar y seiliau canlynol:

**1.** Mae enwadau Cristnogol sylweddol yng Nghymru, ochr yn ochr â grwpiau ffydd eraill, wedi mynegi gwrthwynebiad egwyddorol i farwolaeth â chymorth, gan adlewyrchu pryder am sancteiddrwydd bywyd dynol a diogelwch unigolion bregus a rennir ar draws llawer o draddodiadau ffydd. Yn ogystal, ni ddylid ystyried y diffyg datganiad yn erbyn y bil presennol nac egwyddorion moesol, moesegol a diwinyddol cyffredinol hunanladdiad â chymorth fel cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

**2.** Nid yw darpariaethau penodol y Bil yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon sylweddol a godwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol, eiriolwyr diogelwch cleifion, arbenigwyr gofal lliniarol, a rhanddeiliaid eraill.

**3.** Nid yw'r pryderon a godwyd gan y ddau bwyllgor craffu yn y Senedd ynghylch materion cyfansoddiadol, darpariaeth y Gymraeg, goblygiadau'r gweithlu, a'r effaith ar ofal lliniarol wedi eu datrys yn foddhaol.

**4.** Rhaid parchu breintiau'r Senedd a Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru. Mae'r dull cul o benderfynu pa ddarpariaethau sydd angen cydsyniad, a chreu pwerau cydredol heb ddiogelwch priodol, yn tanseilio cymhwysedd datganoledig.

**5.** Gan gofio bod y Senedd bresennol ar fin dod i ben, bod y Senedd eisoes wedi mynegi ei gwrthwynebiad i egwyddor marwolaeth â chymorth, ac na fyddai rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y cam hwn yn parchu barn glir yr Aelodau etholedig.

**6.** Nid yw'r angen brys i wella, ariannu a chefnogi datblygiad gofal lliniarol yng Nghymru wedi ei fynd i'r afael â'n ddigonol. Byddai buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal lliniarol a gofal diwedd oes cynhwysfawr yn darparu dewis amgen tosturiol i farwolaeth â chymorth, gan sicrhau bod pob person yng Nghymru yn derbyn yr urddas, y rheolaeth ar boen, a'r gefnogaeth y maent yn eu haeddu yn ystod eu dyddiau olaf. Mae blaenoriaethu cyllid gofal lliniarol a datblygu seilwaith yn cynrychioli ymrwymiad cadarnhaol i gefnogi unigolion bregus a'u teuluoedd, yn hytrach na hwyluso diweddu bywyd.

Galwn felly ar Aelodau o'r Senedd i bleidleisio yn erbyn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gan sicrhau drwy hynny fod pryderon pobl Cymru, argymhellion pwyllgorau'r Senedd, a breintiau polisi gofal iechyd datganoledig yn cael eu parchu'n briodol.

***Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru***
*Eglwysi Ynghyd yng Nghymru*

I'w ryddhau ar unwaith: 12fed o Chwefror 2026

## Cytûn yn galw ar y Senedd i wrthod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion â Salwch Terfynol (Diwedd Oes)

Mae Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, wedi galw ar Aelodau o'r Senedd i bleidleisio yn erbyn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (CCD) yn ymwneud â'r Bil Oedolion â Salwch Terfynol (Diwedd Oes) pan fydd yn cael ei drafod (wedi ei drefnu ar hyn o bryd ar gyfer y 24ain Chwefror 2026). Mewn datganiad a gyhoeddwyd heddiw, daeth y corff eciwmenaidd cenedlaethol sy'n cynrychioli eglwysi Cristnogol ledled Cymru i'r casgliad na ddylid rhoi'r CCD, gan nodi pryderon heb eu datrys am ddarpariaethau'r Bil a pharch at gymwyseddau gofal iechyd datganoledig.

Mae'r datganiad yn cydnabod bod safbwyntiau ar farwolaeth â chymorth yn amrywio ar draws enwadau aelodol Cytûn, ond yn nodi bod nifer o eglwysi arwyddocaol—gan gynnwys yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Fethodistaidd, Byddin yr Iachawdwriaeth, ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru—wedi mynegi gwrthwynebiad i egwyddor hunanladdiad â chymorth. Mae Cytûn yn pwysleisio na ddylid dehongli enwadau nad ydynt wedi cyhoeddi safbwyntiau ffurfiol, yn aml fel mater o egwyddor eglwysyddol, fel rhai sy'n cefnogi'r ddeddfwriaeth. Nid yw absenoldeb datganiad swyddogol yn dangos cymeradwyaeth.

Mae datganiad Cytûn yn tynnu sylw at y ffaith bod pryderon sylweddol a godwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol, arbenigwyr gofal lliniarol, a'r ddau bwyllgor craffu yn y Senedd yn parhau heb eu datrys. Mae mwy na 250 o feddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru wedi disgrifio'r Bil fel un "ddiffygiol iawn", tra bod Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd wedi codi cwestiynau difrifol am oblygiadau cyfansoddiadol "dull cul" Llywodraeth Cymru o benderfynu pa ddarpariaethau sydd angen cydsyniad y Senedd. Nid yw pryderon am ddarpariaeth y Gymraeg, capasiti'r gweithlu, a'r effaith ar gyllid gofal lliniarol wedi eu datrys yn foddhaol ychwaith. Mae Cytûn yn pwysleisio'r angen brys i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal lliniarol cynhwysfawr yn hytrach na dargyfeirio adnoddau i weithredu deddfwriaeth marwolaeth â chymorth. Byddai ehangu mynediad yn sylweddol at ofal lliniarol a gofal diwedd oes o ansawdd uchel yn darparu cefnogaeth dosturiol wirioneddol i unigolion â salwch terfynol a'u teuluoedd ledled Cymru.

Mae Cytûn hefyd yn nodi ym mis Hydref 2024 fod y Senedd wedi pleidleisio yn erbyn cynnig yn cefnogi marwolaeth â chymorth, gyda gwrthwynebiad gan aelodau ar draws yr holl brif bleidiau gan gynnwys nifer o Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r corff eciwmenaidd yn dadlau na fyddai rhoi cydsyniad deddfwriaethol yn parchu'r farn a fynegwyd yn glir, na breintiau'r Senedd a Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru. Mae Cytûn yn galw ar yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn y CCD er mwyn sicrhau bod argymhellion pwyllgorau'r Senedd a phryderon pobl Cymru yn cael eu parchu'n briodol.

**– DIWEDD –**

## Nodiadau i Olygyddion

1. Mae datganiad llawn Cytûn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gael yn: https://www.cytun.co.uk/datganiad-ar-y-cynnig-cydsyniad-deddfwriaethol-ar-gyfer-y-bil-oedolion-a-salwch-terfynol-diwedd-oes/
2. Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru / Churches Together in Wales) yw'r corff eciwmenaidd cenedlaethol sy'n cynrychioli eglwysi Cristnogol yng Nghymru. Mae ei aelodau'n cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb Bedyddwyr Cymru, Byddin yr Iachawdwriaeth, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, ac enwadau a sefydliadau Cristnogol eraill.

**3.** Mae'r ddadl yn y Senedd ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Oedolion â Salwch Terfynol (Diwedd Oes) wedi ei threfnu ar gyfer dydd Mawrth 27ain Chwefror 2026. Mae'r CCD yn ymwneud â darpariaethau yn y Bil yn San Steffan sy'n ymwneud â materion datganoledig, yn enwedig darparu gwasanaethau marwolaeth â chymorth drwy GIG Cymru.

**4.** Ym mis Hydref 2024, trafododd y Senedd gynnig ar farwolaeth â chymorth a phleidleisio yn ei erbyn o 26 pleidlais i 19, gyda 9 yn ymatal. Daeth gwrthwynebiad gan aelodau o'r Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr, a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

**5.** Cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiadau ar y CCD ym mis Hydref 2025. Cododd y ddau bwyllgor bryderon am agweddau o'r Bil a'i weithrediad yng Nghymru.

**6.** Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd arweinwyr ffydd o gymunedau Cristnogol, Iddewig, Mwslimaidd, Hindŵaidd, a Sicéaidd yng Nghymru ddatganiad ar y cyd yn gwrthwynebu'r Bil, gan ddatgan: *"Mae tosturi wrth wraidd holl grefyddau mawr y byd. Mae bywyd yn sanctaidd."*

---


**Am ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â:**

Cytûn, Hastings House, Fitzalan Court, Cardiff CF24 0BL

E-bost: post@cytun.co.uk Gwefan: www.cytun.co.uk Ffôn: 0330 016 9860